

---

## **Gwasanaethau rhaglenni ar-alw: pwy sydd angen hysbysu Ofcom?**

Arweiniad drafft ar gyfer yr ymgynghoriad

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 31 Mawrth 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 26 Mai 2021

# 1. Trosolwg

## Beth rydym yn ei gynnig - yn gryno

- Mae'r ddogfen hon yn nodi arweiniad arfaethedig Ofcom ar y meini prawf statudol o dan adran 368A Deddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf") ar gyfer pennu a yw gwasanaeth yn wasanaeth rhaglenni ar-alw ("ODPS") a phryd a sut y bydd disgwyl i ddarparwr hysbysu.
- Mae'r arweiniad arfaethedig yn adlewyrchu newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2020 a fydd yn disodli arweiniad blaenorol Ofcom ar bwy sydd angen hysbysu.
- Bwriedir i'r arweiniad arfaethedig helpu darparwyr i asesu a ydynt yn darparu gwasanaeth sy'n bodloni'r meini prawf o dan y Ddeddf gan olygu, felly, eu bod yn ddarostyngedig i'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ODPS.
- Bydd gwasanaeth neu 'ran ddatgysylltiol' o wasanaeth yn ODPS os:
  - mai ei brif ddiben yw darparu rhaglenni gyda neu heb seiniau sy'n cynnwys delweddau symudol neu lonydd, neu destun darllenadwy, neu gyfuniad o'r pethau hynny;
  - yw mynediad iddo ar-alw;
  - oes person sydd â chyfrifoldeb golygyddol drosto;
  - caiff ei ddarparu gan y person hwnnw i'w ddefnyddio gan y cyhoedd;
  - yw prif swyddfa'r person hwnnw yn y Deyrnas Unedig; ac
  - os gwneir penderfyniadau golygyddol am y gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig.
- Yn flaenorol, gallai gwasanaeth fod yn ODPS ddim ond os oedd modd cymharu'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys arno â ffurf a chynnwys rhaglenni sydd fel arfer yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau rhaglenni teledu. Mae dileu'r gofyniad hwn yn golygu y bydd ystod ehangach o wasanaethau bellach yn gorfod hysbysu.
- Mae'r fframwaith statudol wedi cael ei ddiwygio hefyd i egluro y gall 'rhan ddatgysylltiol' o wasanaeth, yn ogystal â gwasanaeth yn ei gyfanrwydd, fod yn ODPS os yw'n cwrdd â'r meini prawf. Bydd angen i ddarparwyr ystyried a yw'r meini prawf yn berthnasol i'w gwasanaeth cyfan neu i 'ran ddatgysylltiol' ohono.
- Mae'r meini prawf y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn i ODPS ddod o fewn awdurdodaeth y DU wedi newid hefyd o dan y ddeddfwriaeth. Pennir bod gwasanaeth wedi'i sefydlu yn y DU os yw prif swyddfa'r darparwr yn y DU a bod penderfyniadau golygyddol am y gwasanaeth yn cael eu gwneud yn y DU.
- Mae'r cysyniad o gyfrifoldeb golygyddol yn un pwysig. Pan nad oes gan ddarparwr reolaeth gyffredinol dros ba raglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth, nid

ydynt yn cynnig ODPS ond mae'n bosib y bydd angen hysbysu Ofcom am y gwasanaeth fel llwyfan rhannu fideos ("VSP") os bodlonir y meini prawf yn Adran 368S y Ddeddf ar gyfer pennu a yw'r gwasanaeth yn VSP. [Mae arweiniad ar bwy sydd angen hysbysu fel llwyfan rhannu fideos](#) ar gael ar ein gwefan.

## Diben yr ymgynghoriad hwn

- 1.1 Rydym yn ceisio barn ar ein harweiniad arfaethedig (sydd wedi'i nodi isod) i helpu darparwyr i ddeall:
  - a) a ydynt yn darparu gwasanaeth sy'n destun y fframwaith statudol ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar-alw o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003; a
  - b) phryd a sut y gallai fod angen iddynt hysbysu Ofcom am eu gwasanaeth.
- 1.2 Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau a allai ddod o fewn cwmpas y rheoleiddio, cyrff y diwydiant a thrydydd sector, a phartïon eraill sydd â diddordeb, i roi sylwadau ar yr arweiniad drafft a ddisgrifir yn Adrannau Tri a Phedwar. Bydd yr adrannau hyn, ynghyd â throsolwg diwygiedig, yn ffurfio'r arweiniad ar ei ben ei hun ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Gellir dod o hyd i restr lawn o gwestiynau ymgynghori yn Atodiad Tri. Y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yw **5pm ar 26 Mai 2021**.

## Camau nesaf

- 1.3 Ar ôl ystyried yr ymatebion, ein bwriad yw cyhoeddi arweiniad terfynol yn yr haf. Dros yr wythnosau i ddod, byddwn hefyd yn ymgynghori ar arweiniad ar gyfer darparwyr ODPS ar ofynion a mesurau rheoleiddio i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.
- 1.4 Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth hysbysu Ofcom cyn darparu ODPS. Mae gwasanaethau a fu'n gweithredu cyn 1 Tachwedd 2020 nad oeddent yn cwrdd â'r diffiniad blaenorol o ODPS y maent yn cwrdd â'r diffiniad wedi'i ddiweddarau yn gorfod hysbysu Ofcom bellach. Mae'r broses hysbysu wedi'i hamlinellu'n fanylach yn Adran Pedwar y ddogfen hon a darperir mwy o fanylion yn ein dogfen arweiniad [Sut i Hysbysu](#).
- 1.5 Gall darparwyr yrru e-bost i Ofcom yn [vod@ofcom.org.uk](mailto:vod@ofcom.org.uk) os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y gofynion o ran hysbysu a chwmpas. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu cyngor cyfreithiol, a chyfrifoldeb i bob darparwr yw bodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol o ran hysbysu.